Ieuan Wyn Jones AC/AM
Dirprwy Brif Weinidog /Deputy First Minister

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/DFM/0206/10

Gareth Jones AC,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Menter a Dysgu,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd.
CF99 1NA

13 Hydref 2010

Annwyl Gareth,

**Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu - "Cronfeydd Strwythurol: Gweithredu Rhaglenni 2007-2013"**

Ysgrifennaf i ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar weithredu rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-2013 yng Nghymru.

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am yr adroddiad ac am eich ymchwiliad addysgiadol a chynhwysfawr.

**Ieuan Wyn Jones**
Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for the Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
PS.DeputyFirstMinister@wales.gsi.gov.uk

**Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Gronfeydd Strwythurol: Gweithredu Rhaglenni 2007-13**

**13 Hydref 2010**

---

Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn a'i argymhellion hyddysg a hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yn darparu cymorth gwerthfawr wrth fynd i'r afael â rhai o'r materion strwythurol hirdymor yn economi Cymru a hyrwyddo twf cryf a chynaliadwy.

Rydym felly wedi ceisio sicrhau bod y rhaglenni presennol yn cael yr effaith fwyaf posibl. Mae'r gwersi a ddysgwyd wrth gyflawni rhaglenni 2000-2006 wedi'u hadlewyrchu yn y mesurau gweithredu mwy effeithiol a ddatblygwyd o dan raglenni 2007-2013 ac yn ein hymrwymiad pellach i weithio mewn partneriaeth.

Rydym wedi cyflwyno nifer o ddulliau arloesol o dan raglenni 2007-2013 gan gynnwys Fframweithiau Strategol a dull ailadroddol ac ymgynghorol o ddatblygu prosiect sydd wedi gwella gwaith partneriaeth a chydweithio rhwng prosiectau. Enillodd ein proses gwneud cais ar y we, sef "WEFO ar-lein", wobr TG glodwiw yng Ngwobrau'r European Outsourcing Association (EOA) 2010 yn ddiweddar, gan ragori ar gystadleuwyr o rannau eraill o'r DU, Ffrainc, yr Almaen a'r Eidal.

Rwy'n derbyn ac yn cytuno â'r mwyafrif o argymhellion y Pwyllgor, ac wedi nodi fy ymateb iddynt yn unigol isod.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 1**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu ei hasesiad o ffigurau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) 2008 yr Undeb Ewropeaidd i'n Pwyllgor pan fyddant wedi'u cyhoeddi.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Byddwn yn darparu asesiad o'r ffigurau CMC unwaith y cant eu cyhoeddi.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

> **Argymhelliad 2**. Rydym yn argymell y dylai swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a staff prosiectau gydweithio'n agosach ar bob cam o'r broses o ddatblygu prosiect, ond yn enwedig yn ystod y camau cynnar, er mwyn sicrhau y caiff cyngor a chanllawiau cyson eu cyfleu a'u deall o'r dechrau.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn.

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi datblygu proses datblygu prosiect llawer mwy ailadroddol yn y cylch hwn o raglenni. Mae hyn yn cynnwys pennu swyddog penodedig i bob prosiect i weithredu fel canolbwynt ac i helpu i lywio'r noddwr

drwy bob cam o'r broses o ddatblygu prosiect, o gyflwyno'r datganiad o ddiddordeb cychwynnol i lunio cynllun busnes.

Mewn rhai achosion, mae WEFO yn gweithio'n agos gyda noddwyr cyn cyflwyno prosiect yn ffurfiol. At hynny, caiff pob noddwr gyngor arbenigol o feysydd eraill o WEFO ar arfarnu ariannol, gwerthuso a monitro, materion amgylcheddol a chydraddoldeb.

Fodd bynnag, mae WEFO yn cydnabod bod lle i wella ac mae'n parhau i weithredu ar wersi a ddysgwyd. Er mwyn cydnabod bod angen darparu cyngor a chanllawiau cyson, mae WEFO wedi ychwanegu at ei phortffolio o ganllawiau dros y misoedd diwethaf.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau WEFO sy'n bodoli eisoes.

> **Argymhelliad 3**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried dichonoldeb ariannu prosiectau priodol am chwe blynedd mewn unrhyw rownd ariannu yr UE yn y dyfodol, fel rhan o ddull cyfannol o annog prosiectau i ddod yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Mae WEFO eisoes yn ariannu rhai prosiectau am gyfnodau o hyd at chwe blynedd, ond gydag adolygiadau amserol i sicrhau perthnasedd a pherfformiad parhaus. Caiff hyd y cyfnod ariannu ei asesu ar sail pob achos unigol gan ystyried ffactorau megis: dibynadwyedd yr arian cyfatebol; gallu sefydliadol; a phrofiad y noddwr. Nid yw bob amser yn briodol ariannu prosiectau am gyfnodau hwy gan fod cadw hyblygrwydd rhaglenni i ymateb i newidiadau yn y cyd-destun economaidd neu ym maes polisi hefyd yn ystyriaeth bwysig.

Wrth gwrs, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i sicrhau y caiff rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru eu cyflawni mewn modd cyfannol, ac i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 4**. Rydym yn argymell, wrth i WEFO gyflawni ei chyfrifoldebau o ran monitro prosiectau, y dylai ystyried yn ofalus yr hinsawdd economaidd bresennol ac effaith hyn ar dargedau gwreiddiol prosiectau ac felly ar y canlyniadau tymor hwy i economi Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Mae WEFO wrthi'n cynnal adolygiad o dargedau rhaglenni er mwyn ystyried perfformiad prosiectau unigol yn erbyn cyflawniadau a ragwelwyd a thrafodaethau yn ystod adolygiadau prosiect ar effaith y dirywiad economaidd ar berfformiad prosiectau. Mae canlyniadau'r adolygiad wedi llywio diwygiadau i dargedau rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) y cytunwyd arnynt gan Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan yn ei gyfarfod ym mis Medi ac y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd yn fuan.

Yn 2009, negododd WEFO gynnydd i gyfraddau ymyrryd y rhaglenni Cydgyfeirio a rhaglen Gystadleurwydd ERDF er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa economaidd sy'n newid. Disgwylir newidiadau pellach, yn benodol i raglenni gweithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), yn dilyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 5**. Rydym yn argymell y dylai WEFO ystyried dichonoldeb darparu cyngor i brosiectau ar gydymffurfiaeth â rheolau Cymorth Gwladwriaethol, yn hytrach na disgwyl i brosiectau geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain.

**Ymateb: Derbyn.**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn.

Yn unol â'r argymhelliad hwn, mae WEFO wedi ystyried dichonoldeb rhoi cyngor i brosiectau ar gydymffurfiaeth â rheolau Cymorth Gwladwriaethol.

Fel Awdurdod Rheoli ar gyfer rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru, mae WEFO yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant yn cydymffurfio â holl ofynion rheoliadol yr UE gan gynnwys Cymorth Gwladwriaethol. Fel Awdurdod Rheoli, mae'n rhaid i WEFO felly geisio ei chyngor ei hun ar faterion yn ymwneud â chydymffurfiaeth gyfreithiol. Gan ymgynghori ag Uned Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae WEFO yn sicrhau bod y Cymorth Gwladwriaethol priodol ar waith cyn dyfarnu grant a gall gynnig elfennau penodol o gyngor i noddwyr.

Fodd bynnag, yn unol â'r cytundeb dan gontract rhwng WEFO a noddwr y prosiect, mae'n ofynnol i'r noddwr gael sicrwydd bod y prosiect yn cydymffurfio â Rheolau Cymorth Gwladwriaethol, a cheisio ei gyngor cyfreithiol ei hun, lle bo angen, o ran ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau o dan Reolau Cymorth Gwladwriaethol.

Bydd WEFO yn gofyn i noddwr y prosiect ddarparu manylion y Cymorth Gwladwriaethol ac unrhyw ddefnydd o Eithriadau Bloc Cyffredinol. Bydd WEFO hefyd yn sicrhau bod gan y noddwr y systemau a'r gweithdrefnau cywir ar waith i fonitro a chyflwyno adroddiadau yn erbyn gofynion Cymorth Gwladwriaethol. Mae canllawiau i noddwyr prosiectau ar gydymffurfio â rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol ar gael ar wefan WEFO ar hyn o bryd.

Serch hynny, noddwyr prosiectau sy'n gyfrifol o hyd am sicrhau bod prosiectau’n cydymffurfio â gofynion a goblygiadau cyfreithiol, nad yw cydymffurfio â rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol ond yn un agwedd arnynt.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim.

> **Argymhelliad 6**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gadw golwg ar ei defnydd o Gronfeydd Strwythurol wrth ymateb i’r dirwasgiad.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Prif nod rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru yw gweithio tuag at newid strwythurol er budd economi Cymru yn y tymor canolig a'r

hirdymor. Fodd bynnag, mae'r Cronfeydd Strwythurol hefyd wedi chwarae rôl allweddol yn ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r dirwasgiad.

Cymru oedd un o'r rhanbarthau cyntaf yn Ewrop i fanteisio ar gynnig y Comisiwn Ewropeaidd i adolygu'r Rhaglenni fel rhan o Gynllun Adfer yr UE, drwy gytuno ar newidiadau i gyfraddau ymyrryd yr UE. Mae rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol hefyd wedi cefnogi mesurau penodol i ymateb i'r dirwasgiad megis prosiectau ReAct a ProAct.

Caiff perthnasedd y Rhaglenni i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni eu hadolygu'n rheolaidd: mewn partneriaeth â'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni, sy'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r economi bob chwe mis; gyda Gweinidogion yng nghyfarfod chwarterol y Gr• p Gweinidogol ar Gronfeydd Strwythurol; a chyda'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni, ac y mae WEFO yn cynnal archwiliad blynyddol ag ef o bob agwedd ar berfformiad a chyflawniad rhaglenni mewn perthynas â'r hinsawdd cymdeithasol-economaidd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 7**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’n Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol o ran ailddosbarthiad posibl Cyllid Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 8**. Rydym yn argymell y dylai WEFO ddadansoddi’r contractau a ddyfarnwyd i brosiectau a ariennir gan yr UE fesul sector, gan gynnwys gwybodaeth am darddiad y sefydliadau hynny – yng Nghymru neu’r tu hwnt iddi – ac y dylid cyhoeddi’r wybodaeth hon ar ei gwefan.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae WEFO yn cyflwyno dadansoddiad chwarterol i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni o gontractau a ddyfarnwyd fesul sector. Caiff hwn ei gyhoeddi hefyd ar wefan WEFO. Ar hyn o bryd nid yw'r dadansoddiad hwnnw'n cynnwys data ar ddosbarthiad gofodol y sefydliadau y dyfarnwyd contractau iddynt. Mae WEFO wrthi'n asesu dichonoldeb casglu data daearyddol gan noddwyr prosiectau ac mae'n ymestyn ei gwerthusiad o'r broses o weithredu rhaglenni i gynnwys ymchwil i faterion caffael.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau WEFO sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 9**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod rhaglenni presennol y Cronfeydd Strwythurol yn canolbwyntio mwy

ar feithrin gallu ymchwil a chydweithio rhwng y sector busnes a'r sector academaidd er mwyn creu cyfoeth a datblygu'r economi yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Mae'r angen am ddull mwy penodol o ymchwilio a datblygu a masnacheiddio gwybodaeth yng Nghymru eisoes wedi'i gydnabod. Yn unol â'r cyfeiriad polisi newydd a ddiffiniwyd yn "Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd", mae buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu o dan y rhaglenni bellach yn canolbwyntio ar bedwar sector â blaenoriaeth allweddol: yr economi ddigidol (TGCh); yr economi carbon isel (gan gynnwys lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu); iechyd a biowyddorau; a gweithgynhyrchu uwch-beirianneg. Mae'r meysydd â blaenoriaeth hyn yn rhoi'r cyfle gorau posibl i brifysgolion yng Nghymru sicrhau'r perfformiad a'r effaith orau. Mae'r addasiadau arfaethedig i raglenni ERDF yn cynnwys cydnabod bod yn rhaid i chwaraewyr allweddol mewn diwydiant, sefydliadau academaidd a'r llywodraeth gydweithio i ddatblygu rhwydweithiau cryf rhwng sefydliadau sy'n ymwneud ag ymchwil a masnacheiddio.

Cyhoeddwyd adroddiad y Panel Adolygu Ymchwil a Datblygu a gadeirir gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau yn ddiweddar. Mae'n argymell adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus sydd eisoes yn bodoli ac archwilio'r posibilrwydd o gydariannu mentrau strategol bwysig yn y dyfodol, yn enwedig y rheini sy'n bwysig i'r DU yn ogystal â Chymru. Mae rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Cymru yn cydnabod rôl ymchwil cydweithredol yn economi Cymru ac mae ganddynt yr hyblygrwydd sydd ei angen i ymateb i'r adroddiad hwnnw.

Mae WEFO yn sicrhau bod adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â'r sector AU a'r sector busnes i sicrhau yr adeiladir ar allu ymchwil ac y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio, gan ddwyn yr holl ffynonellau ariannu yng Nghymru ynghyd gan gynnwys Ariannu Strwythurol yr UE. Serch hynny, mae'n amlwg bod perfformiad ymchwil yng Nghymru, mewn prifysgolion ac yn fwy byth yn y sector busnes, yn is o lawer na lefelau cyfartalog y DU, a gall Ariannu Strwythurol yr UE gynorthwyo i fynd i'r afael â hyn.

Mae Rhaglen Gydgyfeirio ERDF eisoes wedi ariannu dros 120 o Gydweithrediadau rhwng sefydliadau ymchwil a mentrau preifat a bydd y rhain yn arwain at gynhyrchion, prosesau a thechnolegau newydd a'r buddiannau economaidd cysylltiedig megis swyddi newydd a buddsoddiad yn y busnesau hyn.

Mae enghreifftiau o brosiectau o'r fath yn cynnwys:

Rhaglen Ynni Cydgyfeirio y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel sy'n darparu sail ymchwil strategol a chydgysylltiedig i ddiwydiannau'r sector ynni yng Nghymru.

Mae'r Prifysgolion partner, a arweinir gan Gaerdydd, ac sy'n cynnwys Bangor, Morgannwg, Glyndwr ac Abertawe, oll yn cyfrannu eu harbenigedd mewn nifer o feysydd ymchwil cydategol gan gynnwys Technolegau Hydrogen, Cynhyrchu Ynni ar Raddfa Fawr, Ynni Morol, Ynni Ffotofoltäig Solar ac Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel.

Mae'r prosiect yn targedu mentrau newydd a'r rheini sy'n bodoli eisoes sy'n creu swyddi gwyrdd yng Nghymru ac mae'n ceisio cynyddu gallu sgiliau a chyfalaf gwybodaeth rheolwyr mewn mentrau yng Nghymru sy'n gweithredu yn y sectorau carbon isel/ynni.

Arweinir y prosiect Uwch-Dechnolegau Gweithgynhyrchu Cynaliadwy gan Brifysgol Abertawe ac mae'n cynnwys Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Glyndwr, MET Abertawe, UWIC a Chasnewydd. Y nod yw cydweithio i ddarparu amrywiaeth o gymorth technolegol i ddiwallu anghenion cwmnïau gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg, yn enwedig yn y sectorau Awyrofod a Moduro, a chynnal Ymchwil a Datblygu ar y cyd i ddatblygu cynhyrchion a phrosesau a gwasanaethau newydd.

Caiff prosiectau cydweithredol rhwng y sector busnes a'r sector academaidd eu monitro'n fanwl er mwyn sicrhau bod busnesau'n cael budd llawn o'r buddsoddiadau. Yn ogystal â meithrin gallu sefydliadau academaidd i weithio gyda busnesau, mae angen cymorth arloesi priodol ar fusnesau. Nodir hyn yn Fframwaith Strategol Arloesi, Ymchwil a Datblygu a Thechnoleg y Cronfeydd Strwythurol ac fe'i cyflawnir drwy brosiect Arloesi Busnes Llywodraeth y Cynulliad.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 10**. Rydym hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut y gellid defnyddio Cronfeydd Strwythurol i gefnogi prosiectau drwy ddenu diddordeb a buddsoddiad gan gymunedau rhyngwladol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn llwyr gefnogi defnyddio Cronfeydd Strwythurol i gefnogi gallu busnesau ac ymchwilwyr i ddenu buddsoddiad rhyngwladol ac anogir yn weithredol y defnydd o arbenigedd ymchwil, technoleg ac arloesedd yng Nghymru ei hun a thramor.

Mae gallu busnesau a'r cyfle i ymchwilwyr fanteisio ar arbenigedd ymchwil ac arloesi rhanbarthau eraill yn hanfodol i helpu i feithrin gallu ac arbenigedd. Mae rhaglenni trawsgenedlaethol, rhyngranbarthol a rhaglenni prif ffrwd y Cronfeydd Strwythurol oll yn darparu'r cyfle i fusnesau ac ymchwilwyr yng Nghymru gymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol.

Mae prosiect SEREN, a arweinir gan Brifysgol Caerdydd ac a ariennir gan Raglen Gydgyfeirio ERDF, yn chwilio am synergeddau ag ardaloedd Cydgyfeirio eraill yn Ewrop yn ymwneud â phrosiectau carbon isel. Mae'r prosiect yn anelu at ddatblygu cysylltiadau â sefydliadau a mentrau perthnasol er mwyn rhannu profiad ac arbenigedd; defnyddio canlyniadau gwaith ymchwil a gynhaliwyd mewn ardaloedd Cydgyfeirio eraill a manteisio i'r eithaf arnynt; adeiladu rhwydwaith traws-Ewropeaidd o fentrau Ymchwil a Datblygu Technoleg Peirianneg Daear ac ymgysylltu â busnesau bach a chanolig sy'n gweithredu yn yr ardaloedd hyn.

Bydd cyfnewid arfer gorau ac arbenigedd o fudd i gwmnïau yn yr ardal Gydgyfeirio, ac ar yr un pryd yn eu galluogi i chwilio am gyfleoedd masnachol mewn rhanbarthau eraill yn yr UE, gan gynnwys creu partneriaeth â sefydliadau posibl sy'n ymwneud â'r prosiectau ehangach hyn.

Mae prosiect Lleoliadau Arloesi Prifysgol Cymru (a elwir hefyd yn gynllun Ysgoloriaeth Arloesi Tywysog Cymru) yn datblygu cysylltiadau â phrifysgolion blaenllaw ledled y byd i

ddenu graddedigion o safon i weithio mewn cwmnïau yng Nghymru ar brosiectau Ymchwil a Datblygu. Drwy feithrin rhwydweithiau rhwng prifysgolion a diddordebau busnes ehangach caiff arbenigedd Cymru ei hyrwyddo yn fyd-eang.

Mae buddsoddi Cronfeydd Strwythurol mewn prosiectau sy'n meithrin gallu sefydliadau yng Nghymru i gydweithio â phrifysgolion eraill a'r sector preifat a datblygu rhwydweithiau rhyngwladol yn canolbwyntio ar sicrhau y gellir cael gafael ar gyllid gan raglenni ymchwil a datblygu rhyngwladol eraill yn y dyfodol megis FP7. Drwy hyrwyddo llwyddiant ac arbenigedd prifysgolion a busnesau yng Nghymru ledled y byd a datblygu rhwydweithiau rhyngwladol, mae prosiectau Cronfeydd Strwythurol yn ceisio denu diddordeb a buddsoddiad gan gymunedau rhyngwladol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 11**. Rydym yn argymell ymhellach y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn fwy dychmygus o ran sicrhau bod chwaraewyr llai yn y sector preifat a'r trydydd sector yn cael cyfleoedd i fod yn rhan o'r gwaith o gyflawni prosiectau Cronfeydd Strwythurol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Cytunaf â'r argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Cafwyd lefel uchel o ymgysylltu a chyfranogi ar draws amryw sectorau. Dechreuwyd drwy lunio'r rhaglenni a'r Fframweithiau Strategol cyn mynd ati i i'w gweithredu a'u cyflawni.

Mae hyrwyddo prosiectau strategol fel modd allweddol o gyflawni'r rhaglenni presennol yn galluogi sefydliadau llai i gael gafael ar gyllid heb orfod gwneud cais am Gronfeydd Strwythurol yn uniongyrchol. Ceir cyfleoedd i'r sectorau preifat a di-elw ddod yn brif noddwyr prosiectau, ond y gwir amdani o hyd yw mai gan gynlluniau a arweinir gan y sector cyhoeddus y caiff y sector preifat a sefydliadau llai y trydydd sector fudd neu gymorth uniongyrchol gan amlaf.

Mae rhoi mwy o bwyslais ar gaffael wedi creu mwy o gyfleoedd i sectorau heblaw am y sector cyhoeddus yn rhaglenni 2007-2013 o gymharu â chyfnodau rhaglennu blaenorol. Dengys ffigurau prosiectau a gymeradwywyd, hyd yn oed yn erbyn y cefndir economaidd heriol, fod dros £430 miliwn o arian cyfatebol gan y sector preifat wedi'i ymrwymo i brosiectau.

Mae hyn yn adlewyrchu buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat ac yn dangos gwerth mabwysiadu dull strategol o reoli a chyflawni rhaglenni.

Serch hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i chwilio am ddulliau gwell o ymgysylltu â sefydliadau llai.

Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, estynnwyd gwahoddiad hefyd i Bwyllgor Monitro Rhaglenni mis Medi 2010 gyfrannu syniadau ynghylch annog chwaraewyr llai i gymryd rhan.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau presennol WEFO.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 12**. Rydym yn argymell y dylai WEFO, wrth ddiwygio ei chanllawiau ar gaffael, roi blaenoriaeth i werthuso'r broses gaffael a'i heffaith, yn arbennig ar sectorau anllywodraethol. Dylai'r gwerthusiad nodi pryd a ble y mae caffael fwyaf effeithiol – a lle nad yw'n effeithiol – nid yn unig o ran llywodraethu da a gwerth am arian, ond hefyd o ran ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r defnyddiwr. Dylai WEFO gyhoeddi modelau arfer gorau gyda chanlyniadau'r gwerthusiad, a dylai gyflwyno achos i Lywodraeth y DU i sicrhau nad yw rheolau caffael y Comisiwn Ewropeaidd yn gweithio yn erbyn buddiannau Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn.

Mae WEFO yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar weithgareddau caffael yn ei gyfarfodydd chwarterol. Ar ôl trafod â'r Pwyllgor, mae WEFO yn ymestyn ei gwerthusiad o'r broses o weithredu Rhaglenni i gynnwys ymchwil i faterion caffael. Bydd yr agwedd hon ar werthuso yn ystyried y canlynol:

- effeithiau caffael ar sefydliadau anllywodraethol;
- lle mae caffael yn gweithio'n dda ac yn ychwanegu gwerth;
- lle mae caffael yn achosi problemau a pham;
- materion yn ymwneud â llywodraethu, ansawdd gwasanaethau a ddarperir a gwerth am arian.

Caiff canlyniadau'r gwaith hwn eu cyflwyno i'r Pwyllgor a'u cyhoeddi'n ehangach. Bydd yn ategu astudiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru ar weithredu'r rhaglenni sydd hefyd yn ymchwilio i faterion caffael.

Yn ogystal â hyn, mae WEFO wrthi'n adolygu ei chanllawiau ar gaffael i'w gwneud yn gliriach i noddwyr prosiectau pryd y dylent ymgymryd â chaffael. Mae fersiwn derfynol o'r canllaw "Model Noddi a Chyflawni" wrthi'n cael ei pharatoi a bydd yn disodli'r canllaw blaenorol ar "Nawdd, Partneriaeth, Caffael a Grantiau". Mae WEFO wedi gofyn am farn rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r canllaw newydd er mwyn sicrhau y deellir y negeseuon am yr angen am system gaffael a phryd y dylid ei chymhwyso yn glir.

Rydym yn derbyn yn llawn y dylai systemau o'r fath gael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau na cheir unrhyw effaith negyddol ar sefydliadau a buddiannau yng Nghymru. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i sicrhau y cedwir llygad ar unrhyw reolau a ddaw o'r Undeb Ewropeaidd yn y maes hwn ac y gwneir unrhyw gynrychioliadau angenrheidiol pe bai'r rhain yn feichus i fuddiannau Cymru.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau presennol WEFO.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 13**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried goblygiadau posibl cyllidebau sector cyhoeddus tynnach yn y dyfodol, yn arbennig o ran argaeledd arian cyfatebol o'r sector cyhoeddus a'r posibilrwydd y bydd mwy o alw ar y Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn.

Mae hyn yn rhan annatod o waith WEFO i reoli'r rhaglenni'n barhaus ac mae wedi'i gynnwys ar ei chofrestr risgiau. Bydd y cynnydd mewn cyfraddau ymyrryd a gytunwyd eisoes â'r Comisiwn Ewropeaidd yn galluogi WEFO i liniaru rhai o effeithiau ariannu cyhoeddus tynnach. Mae'r rhaglenni hefyd yn parhau i fod yn eithaf llwyddiannus o ran cael arian cyfatebol o ffynonellau preifat.

Bydd Cronfa Arian Cyfatebol a Dargedir Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn parhau i fod yn ffynhonnell bwysig o arian cyfatebol pan fetho popeth arall ac mae WEFO yn gweithio'n agos gyda thîm y Gronfa hon i reoli'r galw ar y Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir a'r Cronfeydd Strwythurol.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau presennol WEFO.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 14**. Rydym yn argymell y dylai WEFO barhau i sicrhau bod amser gwirfoddolwyr yn gymwys i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol mewn da ar gyfer Cronfeydd Strwythurol, er mwyn galluogi'r trydydd sector i gael gwerth ychwanegol wrth gyflawni rhaglenni yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Rydym yn cydnabod gwerth defnyddio amser gwirfoddol fel arian cyfatebol mewn Rhaglenni sy'n annog y trydydd sector i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gyflawni amcanion rhaglenni. Ein bwriad yw parhau i ganiatáu hyn.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 15**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni, fonitro'n agos effaith y dirwasgiad ar gyflawni rhaglenni a nodau rhaglenni er mwyn llywio a, lle y bo angen, ail-lunio'r ffocws ar gyfer ail hanner cyfnod y rhaglen.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Mae WEFO yn cynnal adolygiadau rheolaidd â noddwyr prosiectau, sy'n cynnwys monitro cynnydd yn erbyn targedau'r prosiect, ac ystyried newidiadau i'r cyd-destun economaidd.

Mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn asesu cynnydd y Rhaglenni yn ei gyfarfodydd chwarterol ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr economi bob hanner blwyddyn er mwyn gosod perfformiad y rhaglen yn ei gyd-destun. Yn y gorffennol, mae WEFO wedi ceisio, ac wedi cael, cymeradwyaeth y Pwyllgor Monitro Rhaglenni o ran newidiadau i raglenni er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn effeithiol ar ôl y dirywiad economaidd.

Ar hyn o bryd mae cynigion pellach i newid rhaglen ERDF yn cael eu paratoi i'w cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd yn dilyn cyhoeddi Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd. Cymeradwywyd yr addasiadau gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Medi.

Rhagwelir addasiadau i raglenni ESF yn dilyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Disgwylir i gynigion gael eu trafod gyda'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Rhagfyr.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 16**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i weithio gyda phartneriaid i ystyried sut y gellir defnyddio Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd orau i atgyfnerthu rhaglen y Llywodraeth ar gyfer adnewyddu economi Cymru yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Mae WEFO wedi trafod diwygiadau arfaethedig i'r rhaglenni gyda phartneriaid drwy'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Disgwylir trafodaethau pellach yn dilyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 17**. Rydym yn argymell y dylai WEFO ystyried mabwysiadu system casglu data gyffredinol ar gyfer pawb sy'n noddi ac yn cyflawni prosiectau, er mwyn olrhain canlyniadau a buddiolwyr ac osgoi unrhyw ddyblygu neu gyfri ddwywaith, a dylai annog dulliau cyfathrebu gwell rhwng prosiectau lleol lle maent yn targedu'r un grwpiau o bobl.

**Ymateb: Derbyn**

Mae WEFO eisoes wedi datblygu system casglu data ar lefel cyfranogwyr sy'n sicrhau bod holl brosiectau ESF yn rhoi'r data hwn i WEFO. Datblygwyd y system drwy ymgynghori â phartneriaid ac er mwyn ymateb i dystiolaeth o'r gwerthusiad o Raglenni 2000-2006.

Fel rhan o'r system hon o gasglu data ar lefel cyfranogwyr, mae WEFO bellach yn casglu gwybodaeth fanwl am briodweddau cyfranogwyr, o ran oedran, ethnigrwydd, statws anabledd, statws cyflogaeth a rhyw. Mae hyn yn galluogi WEFO i fonitro i ba raddau y mae Rhaglenni ESF yn cyrraedd eu grwpiau targed a sicrhau bod grwpiau anodd eu cyrraedd, megis gweithwyr mudol, yn cael budd o gymorth ESF.

Mae WEFO hefyd yn casglu gwybodaeth am y canlyniadau a gyflawnwyd gan gyfranogwyr ac mae'n gallu nodi lle mae unigolyn wedi cymryd rhan mewn mwy nag un prosiect. Mae hyn yn galluogi WEFO i ddeall cynnydd cyfranogwyr yn well wrth iddynt symud o ddiweithdra / anweithgarwch i gyflogaeth.

Mae system debyg ar waith ar gyfer ERDF lle mae WEFO yn casglu gwybodaeth am fusnesau a gefnogir. Bydd y naill system a'r llall yn galluogi WEFA i osgoi cyfri data ddwywaith.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau presennol WEFO.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 18**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gaffael adolygiad canol tymor o effaith rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol, er mwyn nodi gwersi o raglenni 2007-13 hyd yma fel bod modd cynllunio'n effeithiol ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglenni a thu hwnt i 2013. Dylai'r adolygiad hefyd gynnwys rhywfaint o feddwl creadigol o ran sut y gellir strwythuro rhaglenni'n fwy effeithiol yn y dyfodol.

**Ymateb: Gwrthod**

Nid yw WEFO yn bwriadu comisiynu adolygiad canol tymor o'r Rhaglenni ond yn hytrach mae'n mabwysiadu dull sy'n fwy trylwyr a phriodol, yn ei barn hi, yn unol â chanllawiau gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Yn wahanol i'r rheoliadau ar gyfer cyfnod rhaglennu 2000-2006, nid yw'r rheoliadau Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2007-2013 yn gofyn am Werthusiad Canol Tymor. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn argymell "gwerthuso parhaus" drwy gydol y cyfnod rhaglennu, yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd o 2000-2006. Mae'r dull hwn o weithredu yn cydnabod bod angen i'r gwaith o werthuso rhaglenni fod yn fwy hyblyg er mwyn diwallu anghenion yr Awdurdod Rheoli yn hytrach nag ymateb i ofynion rheoliadol.

Un o wendidau allweddol y system flaenorol a nodwyd gan y Comisiwn, yn unol â phrofiad WEFO, oedd y ffaith bod y Gwerthusiadau Canol Tymor yn cael eu lansio'n rhy gynnar mewn sawl achos i'w gweithredu ar lawr gwlad. Yn ogystal â hyn roedd natur gynhwysfawr y Gwerthusiad Canol Tymor yn rhy eang ac nid oedd modd gwneud dadansoddiad digon manwl. Mae'r dull presennol yn sicrhau mai anghenion Llywodraeth y Cynulliad, rhanddeiliaid a phartneriaid sy'n llywio gofynion gwerthuso'r rhaglenni.

Cymeradwywyd cynllun gwerthuso WEFO ar gyfer pob un o bedwar Cynllun Gweithredu Cymru gan y Comisiwn Ewropeaidd ar ôl i Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan gytuno arno. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys nifer werthusiadau yn cwmpasu: prosesau, arolygon dilynol o fuddiolwyr, arolygon cwsmeriaid, astudiaethau thematig ac effaith Cronfeydd Strwythurol. Caiff y gwaith ei lywio gan Gr• p Cynghori ar Werthuso sy'n cynnwys arbenigwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru, sefydliadau partner a'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau gwerthuso a gwaith sy'n mynd rhagddo ym mhob cyfarfod.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

> **Argymhelliad 19**. Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn ategu ac yn hybu eu gweledigaeth ar gyfer economi Cymru yn y dyfodol, ac y dylent barhau i roi llais cryf i Gymru wrth lunio polisïau datblygu rhanbarthol yn Ewrop yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Lluniwyd rhaglenni presennol y Cronfeydd Strwythurol i ychwanegu gwerth at flaenoriaethau polisi Llywodraeth y Cynulliad ac ategu blaenoriaethau'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae defnyddio Cronfeydd Strwythurol wedi ychwanegu pwysau sylweddol at weithredoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, er enghraifft drwy hyrwyddo datblygu economaidd, trafnidiaeth, adfywio, sgiliau a chyflogaeth, a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Bellach mae WEFO wedi cytuno ar addasiadau â'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ac wedi dechrau trafodaethau â'r Comisiwn Ewropeaidd i sicrhau y caiff y rhaglenni eu halinio'n llwyr â nodau Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd, ac y gallant eu cefnogi.

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â Gweinidogion eraill Cymru i drafod cynnydd y rhaglenni a dyfodol Cronfeydd Strwythurol. Mae gan y Prif Weinidog gyfrifoldeb dros Bolisi'r UE ac rwy'n gweithio'n agos gydag ef ledled Ewrop i hyrwyddo gwerth y Cronfeydd Strwythurol i Gymru. Mae holl Weinidogion Cymru yn ymrwymedig i sicrhau'r fargen orau bosibl i Gymru ac rydym yn chwarae ein rhan yn llawn i sicrhau y caiff barn Cymru ei chlywed yn y mannau cywir a bod y farn honno'n gredadwy. Rhyngom, rydym wedi cwrdd â nifer o chwaraewyr allweddol, megis Comisiynwyr Andor a Hahn ac yn ddiweddar Llywydd Barroso, a wnaeth nid yn unig ganmol Llywodraeth Cynulliad Cymru am y ffordd y caiff arian yr UE ei wario ond hefyd ategu'r ffaith bod y Comisiwn yn gefnogwr brwd o'r safbwynt rhanbarthol. Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i sicrhau bod gan Gymru lais cryf drwy gydol y gwaith o lunio polisïau datblygu rhanbarthol yn Ewrop yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau presennol WEFO.